

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 20 Ionawr 2021

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 26 IONAWR 2021** am **10.00 am** yn **VIA ZOOM**.

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2020 (copi ynghlwm).

5 CYLLIDEB 2021/2022 – CYNIGION TERFYNOL (Tudalennau 17 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm).

6 CYNLLUN LLEIHAU TRETH Y CYNGOR 2021/2022 (Tudalennau 37 - 62)
Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm).

7 CYFLOG BYW CENEDLAETHOL (Tudalennau 63 - 68)
Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo a'r Arbenigwr Cyflog a'r Arbenigwr Tâl a Gwobrwyon (copi ynghlwm).

8 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 69 - 70)
Cyflwynodd y Cynghorydd Glenn Swingler y Rhybudd o Gynnig i'w ystyried gan y Cyngor Llawn (copi ynghlwm).

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 71 - 76)
Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Alan James (Is-
Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Ann Davies
Gareth Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Hugh Irving
Brian Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Richard Mainon

Barry Mellor
Melvyn Mile
Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Peter Scott
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne

Christine Marston

Mark Young

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via Video Conferencing, Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2020 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS) Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW) Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ) Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG) Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (AL) Prif Archwiliwr Mewnol (LL) Arbenigwr AD - Tâl a Gwobrwyo (SV) Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol (GD) Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymunedol a Busnes (AH) Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP) Gweinyddwr Zoom (RT-J) a/ac Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr Pat Jones

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Graham Timms gysylltiad sy'n rhagfarnu yn eitem 10, Rhybudd o Gynnig, oherwydd ei fod yn berchen ar gartref gwyliau

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Cynigodd y Cyngor Llawn eu cydymdeimlad i'r Cynghorydd Barry Mellor y bu ei wraig Antoinette farw yn ddiweddar

Cynigwyd cydymdeimlad i deulu'r Cyn-gynghorydd Robert Eric Barton a fu farw yn ddiweddar.

Anfonwyd cydymdeimlad i'r AM, Ann Jones, fu farw ei gŵr yn ddiweddar.

Cynhaliwyd munud o dawelwch.

Nododd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans bod recordio cyfarfodydd wedi cael ei godi a bod y Swyddog Monitro wedi cynghori Arweinwyr Grŵp.

Cwestiynodd y Cynghorydd Paul Penlington y bu achlysuron lle'r oedd un Cynghorydd yn benodol wedi recordio a rhannu cipluniau o'r sgrin ar y cyfryngau cymdeithasol, a fydd hyn yn cael ei drafod heddiw?

Ymatebodd y Cynghorydd Hugh Evans y bydd yn cael sylw trwy'r protocol ac yn cael ei rannu ond ni fyddai'n cyfeirio at unrhyw Gynghorydd penodol yn ystod y Cyngor Llawn.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020.

CYNIGIODD y Cynghorydd Alan James dderbyn y cofnodion, EILWYD gan y Cynghorydd Bob Murray.

Pleidleisiwyd a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn y cofnodion.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

5 Y FARGEN DWF DERFYNOL

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yr adroddiad Bargen Dwf Derfynol (a ddosbarthwyd eisoes), i'r Cyngor gyrraedd Cytundeb Bargen Derfynol ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Yn 2016, mabwysiadodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru. Yn ddiweddarach, cafodd y Weledigaeth honno ei mabwysiadau gan y 6 Cyngor yng Ngogledd Cymru. Yn seiliedig ar y Strategaeth Gweledigaeth Twf, fe baratowyd cais Bargen Dwf a'i gytuno gan bob partner, yn cynnwys Cyngor Sir Ddinbych, gan weithio gyda Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig a'r sector preifat ym mis Hydref 2018. Ym mis Tachwedd 2019, cytunodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig ar Benawdau'r Telerau ar gyfer Cytundeb Bargen Derfynol i gael ei gwblhau tuag at ddiwedd 2020.

Roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gyflawni Cytundeb Bargen Derfynol gyda'r ddwy Lywodraeth cyn diwedd Rhagfyr 2020.

Ar 24 Tachwedd 2020, fe ystyriodd y Cabinet y dogfennau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yma ac argymhelliad y Pwyllgor Craffu Partneriaethau y dylai'r Cabinet a'r Cyngor gefnogi a chymeradwyo'r dogfennau sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r Fargen Dwf Derfynol. Penderfynodd y Cabinet i gefnogi'n ffurfiol y dogfennau angenrheidiol i gwblhau'r Fargen Dwf Derfynol a chymeradwyo'r rhannau hynny o Gytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithredol. Fe

argymhellodd y Cabinet bod y Cyngor yn cymeradwyo'n ffurfiol y dogfennau fel y'i nodwyd yn yr adroddiad.

Pwysleisiodd yr Arweinydd nod y Fargen Dwf i adeiladu economi mwy cynaliadwy a chadarn yng Ngogledd Cymru mewn partneriaeth â'r sectorau cyhoeddus a phreifat, gyda chymorth £240 miliwn o gyllid gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru dros y 15 mlynedd nesaf. Nod y Fargen Dwf oedd darparu buddsoddiad o hyd at £1.1 biliwn i economi Gogledd Cymru er mwyn creu 3,400 – 4,200 o swyddi newydd a chynhyrchu £2 - £2.4 biliwn mewn gwerth ychwanegol gros net erbyn 2036. Darparodd yr Arweinydd gyflwyniad ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus; Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, a'r Pennaeth Cyllid, gan drafod meysydd o'r Fargen Dwf.

Cadarnhawyd mai Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod lletya a'r corff atebol.

Yn ystod trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegodd y Cynghorydd Paul Penlington bryderon ynghylch y ganran o bŵer niwclear yn y ddogfennaeth. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd pŵer niwclear yn rhan arwyddocaol a'r prosiectau. Roedd pŵer gwynt, dŵr ac ati hefyd yn brosiectau pŵer wedi'u cynnwys yn y prosiect. Nododd swyddogion nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch ynni niwclear.
- Roedd ymrwymiad gwleidyddol i gyllid y llywodraeth o £240 miliwn ac roedd trafodaethau gyda'r ddwy lywodraeth yn parhau ar faterion manwl, heb unrhyw fynegiant y byddai'r ymrwymiad gwleidyddol yn cael ei dynnu'n ôl. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ymrwymiad cyfreithiol i ddarparu'r cyllid tan i'r Fargen gael ei harwyddo.
- Eglurodd y swyddogion y cyfrifiadau cyllido ar gyfer cyfraniadau partner gan gadarnhau y bod prosiectau ar draws y rhanbarth yn cael eu cyllido'n gyfartal, ond ar gyfer prosiectau unigol lle byddai partneriaid penodol yn derbyn mwy o fuddion (adeilad/ased ac ati), disgwyliid iddynt dalu am y gofyniad benthyca mewn cysylltiad â'r prosiect hwnnw.
- Mynegwyd pryderon nad oedd ardaloedd gwledig wedi eu hamlygu yn y Fargen Dwf a chadarnhaodd yr Arweinydd a'r swyddogion fod yna ffrwd ariannu arall ar gael ar gyfer ardaloedd gwledig. Buddsoddir mewn ardaloedd gwledig ond nid yn uniongyrchol trwy'r Fargen Dwf.
- Byddai pob penderfyniad a wneir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael ei gyhoeddi gan bob Awdurdod Lleol. Byddai adroddiad chwarterol yn cael ei gynhyrchu a byddai'n cael ei gyflwyno ddwy waith y flwyddyn mewn Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn trafodaethau, cynigodd yr Arweinydd yr argymhellion, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill gyda phleidlais i ddilyn.

Pleidleisiodd mwyafrif yr aelodau o blaid yr adroddiad, roedd 2 aelod yn ymatal a phleidleisiodd 4 aelod yn erbyn yr adroddiad. Felly,

PENDERFYNWYD:

- Bod y Cyngor yn cymeradwyo Cynllun Busnes Trosfwaol fel y ddogfen sy'n nodi'r trefniadau i gyflawni Bargaen Dwf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer

ymrwymo i'r Cytundeb Bargen Derfynol a derbyn y Llythyr Cyllido Grant gyda Llywodraethau Deyrnas Unedig a Chymru.

- Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau anweithredol a'i fod yn mabwysiadu'n benodol y trefniadau ar gyfer Craffu sydd wedi'u nodi yn "Cytundeb Llywodraethu 2: Atodlen 3" fel y sylfaen ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Bargen Derfynol a derbyn y Llythyr Cyllido Grant gyda Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru.
- Bod y Cyngor yn awdurdodi'r corff atebol, Cyngor Gwynedd, i arwyddo'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid.
- Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo cost y benthyca sy'n ofynnol yn dybiannol i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Fargen Dwf, ac i gynnwys darpariaeth yng nghyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau craidd ac atodol sefydledig fel y'u nodir yn GA2 (ac ym mharagraffau 5.5 – 5.7 o'r adroddiad templed sydd ynghlwm fel rhan o Atodiad 1).
- Bod y Cyngor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid yn ôl yr angen i gyflawni'r cytundeb.
- Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys yr Aseiad o'r Effaith ar Les Cyngor Sir Ddinbych sydd ynghlwm fel Atodiad 2 fel rhan o'i ystyriaethau.

YN Y CYFFORDD HON (11.40 A.M.) ROEDD TORRI 15 COFNOD
Y CYFARFOD A DDERBYNIWYD AM 11.55 A.M.

6 STRATEGAETH DAI A DIGARTREFEDD SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Tony Thomas, Adroddiad Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych (a gylchredwyd ymlaen llaw) i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu Strategaeth Tai a Digartrefedd ddiwygiedig Sir Ddinbych ac i gefnogi'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

Cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Dai bresennol Sir Ddinbych ar 1 Rhagfyr 2015 ac roedd yn nodi gweledigaeth a nodau tai'r Cyngor ar gyfer cyfnod o bum mlynedd. Yn bwysig, roedd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol drwy ddarparu fframwaith a chynllun gweithredu i ddarparu (gan weithio gyda phartneriaid) pob swyddogaeth sy'n gysylltiedig â thai (preifat a chyhoeddus). Roedd y strategaeth hefyd yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r strategaeth bresennol yn nodi 5 "thema" er mwyn targedu ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol
- Creu cyflenwad o dai fforddiadwy
- Sicrhau cartrefi diogel ac iach
- Cartrefi a chymorth i bobl ddi-amddiffyn
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau

Roedd gan y Strategaeth Dai hon Grŵp Llywio a oedd yn cynnwys Aelodau Arweiniol, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr a Swyddogion ac roedd ganddynt gynllun gweithredu clir a mecanweithiau monitro. Cafodd Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd ei sefydlu i ddatblygu dull mwy cydlynol a bu iddynt gytuno i uno'r Strategaeth Dai a'r Strategaeth Ddigartrefedd yn un strategaeth wedi'i diweddarau.

Cadeiriwyd y grŵp hwn gan yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (y Cynghorydd Tony Thomas) ochr yn ochr â'r Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (y Cynghorydd Bobby Feeley).

Blaenoriaeth ddioded y grŵp oedd datblygu dull corfforaethol i fynd i'r afael â digartrefedd gan fod pandemig Covid-19 wedi rhoi llawer mwy o bwysau ar y gwasanaeth.

Yn ystod y trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol:

- Materion yn ymwneud â defnyddio gwesty'r Westminster i ddarparu llety i bobl ddigartref. Cadarnhawyd fod gan bawb a dderbyniodd lety weithiwr cefnogi a'u bod hefyd wedi derbyn asesiad iechyd a lles a chynlluniau gofal. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod unigolion gyda phroblemau alcohol a chyffuriau yn derbyn cymorth.
- Mae adroddiadau am broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd lle darparwyd llety i bobl ddigartref. Cadarnhawyd y bydd Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl yn trafod y strategaeth.
- Mae tai gwag wedi bod yn broblem ac mae gwaith yn parhau i gysylltu â pherchnogion y tai hyn i geisio'u helpu i ddod â'r tai gwag yn ôl ar y farchnad dai.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar fenter Tai yn Gyntaf, menter wedi'i hariannu ar wahân.
- Gofynnwyd i'r argymhelliaid nodi bod y "Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Tai a Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig fel fframwaith ar gyfer bwrw ymlaen â materion tai a digartrefedd". Roedd pawb yn cytuno y dylid ychwanegu digartrefedd.

Ar y pwynt hwn, diolchodd yr Aelodau i'r Tîm Digartrefedd am eu gwaith caled yn ystod y pandemig.

Yn dilyn trafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd Tony Thomas yr argymhellion ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Bobby Feeley, a chafwyd pleidlais.

Pleidleisiwyd yn unfrydol o blaid yr adroddiad.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Tai a Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig fel fframwaith ar gyfer bwrw ymlaen â materion tai a digartrefedd.

7 DATGANIAD POLISI TÂL 2020/2021

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Adroddiad Datganiad ar Bolisi Tâl (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i geisio cymeradwyaeth y Cyngor o'r Datganiad ar Bolisi Tâl a oedd wedi cael ei ddrafftio yn unol â gofynion 38 (1) y Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac yn cynnwys holl drefniadau tâl cyfredol ar gyfer grwpiau'r gweithlu o fewn y Cyngor, gan gynnwys Prif Swyddogion a'r gweithwyr ar y cyflogau isaf.

Cadarnhawyd y dylai'r adroddiad fod wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym Mawrth 2020, ond yn sgil pandemig Covid cafodd ei oedi. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym Mawrth 2021 ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

Codwyd y Cyflog Byw Go lawn gan aelodau a chadarnhawyd y byddai adroddiad mewn perthynas â'r Cyflog Byw Go lawn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Ionawr neu fis Chwefror 2021.

Yn dilyn trafodaethau, cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argymhellion, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Tony Thomas a chynhaliwyd pleidlais.

Pleidleisiodd y mwyafrif o aelodau o blaid yr adroddiad, ni wnaeth unrhyw un ymatal ac fe bleidleisiodd dau aelod yn erbyn yr adroddiad. Felly,

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cytuno ag argymhelliad y Panel Tâl Uwch Arweinyddiaeth o ran newid Polisi Tâl 2020/21 (copi yn Atodiad A).

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor (Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i hysbysu bob Aelod am waith y Pwyllgor yn 2019/20.

Roedd gofyn statudol i'r Cyngor, dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011, fod â Phwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor at y diben hwn.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn bod aelodaeth y Pwyllgor yn wleidyddol gytbwys ac yn cynnwys chwe Aelod Etholedig. Nid oes gofyniad statudol i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys. Ond mae'n rhaid cael o leiaf un aelod lleyg annibynnol sef, ar hyn o bryd, Mr Paul Whitham.

Mae Swyddog Adran 151 y Cyngor, Swyddog Monitro a Phennaeth Archwilio Mewnol, neu eu cynrychiolwyr, yn bresennol ymhob cyfarfod. Yn ychwanegol at hynny, mynychir pob cyfarfod gan swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi cael nifer o adroddiadau blynyddol mewnol ar faterion yn ymwneud â llywodraethu.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad o'i berfformiad ei hun a'i gymharu â'r arfer orau bresennol. Gwnaed yr asesiad hwn yn erbyn rhestr wirio o ganllaw'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) "Pwyllgorau Archwilio – Canllaw Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu Rhifyn 2018".

Cymerodd y Cyng. Barry Mellor y cyfle hwn i ddiolch i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd Llywodraethu Corfforaethol. Yn benodol, cydnabu faint o waith a wneir gan y tîm Archwilio Mewnol. Diolchwyd i bob aelod o'r Pwyllgor gan fod y rhaglenni yn aml yn hir a'r aelodau bob amser yn paratoi'n dda ar gyfer y cyfarfodydd.

Diolchwyd hefyd i'r Aelodau Arweiniol am eu presenoldeb mewn Pwyllgorau ac am eu cefnogaeth.

Mynegodd aelodau eu diolch i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am eu holl waith caled.

Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

PENDERFYNWYD bod *Aelodau o'r Cyngor Llawn yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.*

9 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Joan Butterfield, ar ran y Grŵp Llafur, y Rhybudd o Gynnig canlynol ar gyfer sylw'r Cyngor Llawn:

Bod Cyngor Sir Ddinbych yn:

Ysgrifennu at holl ddarparwyr Gofal Cymdeithasol sector preifat y sir, yn nodi y dylent adolygu eu polisiau absenoldeb salwch, fel y byddant o leiaf yn talu'r un ddarpariaeth salwch â mae staff Awdurdodau Lleol yn dderbyn, gan gynnwys tâl llawn i staff sydd ar absenoldeb salwch oherwydd coronafeirws.

Bydd hyn yn helpu i gyfrannu'n llawn tuag at ymladd y feirws peryglus hwn.

Yn ystod y drafodaeth dywedodd y Cynghorydd Paul Penlington fod Llywodraeth Cymru wedi delio â'r Rhybudd o Gynnig ac felly cynigiodd ddiwygiad bod CSDd yn ysgrifennu at ddarparwyr preifat i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r cynllun ychwanegol.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Penlington ddiwygio'r Rhybudd o Gynnig ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Rhys Thomas.

Cafwyd pleidlais ar y diwygiad. Pleidleisiodd y rhan fwyaf o'r aelodau o blaid y diwygiad; pleidleisiodd 9 yn erbyn ac ymatalodd un aelod. Felly cymeradwywyd y diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig.

Yna cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig a gymeradwywyd. Pleidleisiodd y rhan fwyaf o'r aelodau o blaid; 0 yn erbyn ac un aelod yn ymatal.

Felly:

PENDERFYNWYD fod Cyngor Sir Ddinbych yn ysgrifennu at ddarparwyr preifat i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r cynllun ychwanegol.

10 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor y Rhybudd o Gynnig canlynol ar gyfer sylw'r Cyngor Llawn:

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gal war Lywodraeth Cymru i newid y Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfo dol cael hawl cynllunio i drosi tŷ anedd yn dŷ haf /uned wyliau, ac yn addasu'r fframwaith bolisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal.

Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Graham Timms gysylltiad sy'n rhagfarnu oherwydd ei fod yn berchen ar gartref gwyliau ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Cynigodd y Cynghorydd Mark Young ddiwygiad bod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer trafodaeth bellach. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Martyn Holland.

Pleidleisiwyd ar y diwygiad. Pleidleisiodd yr Aelodau'n unfrydol o blaid y diwygiad. Felly, cymeradwywyd y diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig.

Yna, pleidleisiwyd ar y prif gynnig fel a ganlyn. Pleidleisiodd yr Aelodau'n unfrydol o blaid cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer trafodaeth bellach.

Felly:

PENDERFYNWYD cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer trafodaeth bellach.

11 RHYBUDD O GYNNIG

Tynnodd y Cynghorydd Martyn Holland y Rhybudd o Gynnig yn ôl.

12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd yn flaenorol).

26 Ionawr 2021 - Cyflog Byw Go lawn i'w ychwanegu

23 Chwefror 2021 - Datganiad Polisi Tâl i'w ychwanegu

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor.

Y CYFARFOD A GASGLWYD YN 2.15 P.M.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r: Cyngor Sir

Dyddiad y cyfarfod: 26 Ionawr 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Julian Thompson Hill

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Cyllideb 2021/22 – Cynigion Terfynol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2021/22.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod y lefel o Dreth y Cyngor o ganlyniad i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

2.2 Darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith y Setliad Llywodraeth Leol a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2021/22, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi effaith y Setliad Llywodraeth Leol Drafft 2021/22.

3.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion a amlinellwyd yn Atodiad 1, a manylwyd yn Adran 4, er mwyn cwblhau'r gyllideb ar gyfer 2020/21.

3.3 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnydd ar gyfartaledd o 3.8% arfaethedig yn Nhreth y Cyngor.

3.4 Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wedi'i gynnwys yng nghynigion y

gyllideb gan hyd at £500k os oes yna symud rhwng y ffigyrau setliad drafft a therfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol.

3.5 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Derbyniodd y cyngor y Setliad Llywodraeth Leol Drafft ar gyfer 2021/22 ar 21 Rhagfyr ac arweiniodd at setliad cadarnhaol o +3.6% oedd yn cymharu â safle cyfartalog Cymru o 3.8%. Disgwylir y Setliad Terfynol ar 2 Mawrth ond mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi nodi na fydd yna lawer o newidiadau.

4.2 Fel rhan o'r setliad roedd yna 'drosglwyddiadau i mewn' o £1.280m sydd wedi eu trosglwyddo i'r meysydd gwasanaeth perthnasol fel yn y blynyddoedd blaenorol:

- 2020/21 Y Grant Cyflog Athrawon - £0.135m
- Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol £1.145m

4.3 Mae cynigion terfynol i gydbwysu cyllideb 2021/22 wedi eu dangos yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 1. Y prif feysydd o ran twf a phwysau yw:

- Pwysau tâl o £0.870m
- Chwyddiant prisiau ac ynni £250k
- Ardoll y Gwasanaeth Tân o £162k
- Lwfans ar gyfer cynnydd yn y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor o £350k.
- Pwysau chwyddiant ysgolion yn cael eu cydnabod yn swm o £1.205m
- Buddsoddiad ysgolion mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol £1.192m
- Buddsoddiad ysgolion yng nghynaliadwyedd ysgolion bach £161k
- Pwysau demograffig ysgolion o £718k
- £2.4miliwn i gydnabod pwysau'r galw a'r rhagolygon mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol fel rhan o strategaeth hirdymor y cyngor i reoli cyllidebau gofal.
- £0.750miliwn i gydnabod y pwysau presennol mewn Addysg a Gwasanaethau Plant sy'n ymwneud â Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Adennill.
- Mae'r pwysau £250mil mewn Gwasanaethau Gwastraff wedi eu cydnabod yn seiliedig ar amcangyfrifon o bwysau yn ystod y flwyddyn.

- Effaith penderfyniadau blaenorol gan y Cyngor/Cabinet (e.e. Cynllun Llifogydd y Rhyl, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru): £0.276m
- Pwysau £389k am fuddsoddiad yn y Targed Di-garbon sydd ei angen er mwyn y targed ar gyfer 2030 a gytunwyd gan y Cyngor.
- Buddsoddiad o £250k ym mhroblem y Clefyd Coed Ynn. Byddai hyn yn gwneud taliad untro parhaol a nodwyd yng nghyllideb y llynedd.
- Yng ngoleuni graddfa'r pwysau, a'r ffaith fod effaith Covid a Brexit yn parhau heb eu datrys
mae arian at raid o £683k wedi ei gynnwys

4.4 Mae'r pwysau a nodwyd uchod yn dod i gyfanswm o £9.903m. Mae effaith defnyddio £685miliwn o arian yn 20/21 (sydd â'r effaith o ohirio'r angen i nodi arbedion yn unig) yn golygu bod cyfanswm y diffyg yn £10.588miliwn. Byddai angen setliad drafft o tua 8% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Mae'r setliad net +3.6% yn cynhyrchu £5.42miliwn o refeniw ychwanegol gan adael bwch cyllido o £5.167miliwn. Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn pontio'r bwch hwnnw:

- Mae Cyllidebau Incwm Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd sy'n cynyddu incwm allanol o £0.462m.
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol sy'n gyfanswm o £690k wedi eu nodi yn bennaf gan wasanaethau drwy gydol y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Mae arbedion o £0.781miliwn hefyd wedi eu nodi sy'n newid darpariaeth gwasanaeth mewn ffordd a chawsant eu rhannu mewn manylder gyda'r Cabinet a'r Cyngor yn sesiynau briffio mis Rhagfyr.
- 1% (£0.733m) Targed effeithlonrwydd ysgolion o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion. Gan fod cyllidebau ysgolion wedi eu datganoli, y cyrff llywodraethu fydd yn penderfynu sut y bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni.
- Argymhellir bod Treth y Cyngor yn cynyddu o 3.8% fydd yn creu refeniw ychwanegol o £2.132miliwn. Mae hyn yn cymharu â chynnydd y llynedd o 4.3% a 6.35% y flwyddyn cyn hynny.
- Yn olaf, mae Sylfaen Treth y Cyngor wedi cynyddu mwy na'r disgwyl eleni sy'n golygu y rhagwelir Treth y Cyngor ychwanegol o £369mil.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r cynigion yn cynnwys dyraniadau i barhau i gefnogi blaenoriaethau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nodir manylion yn Adran 4.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae Asesiad o Effaith ar Les cynnydd yn Nhreth y Cyngor wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol wedi gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae pandemig y Covid wedi effeithio ar y lefel o ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Ond er hynny mae cynlluniau mewn grym i ymgysylltu'n gynnar gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn ystod proses y gyllideb ar gyfer 2022/23.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae effaith y pandemig a'r ansicrwydd ynglŷn â lefel ac amseriad y setliadau ariannol eto eleni wedi gwneud cynllunio ariannol hyd yn oed yn fwy heriol. Fodd bynnag, roedd y setliad drafft pan gafodd ei gyhoeddi yn parhau i ddod yn ôl at setliadau cadarnhaol a groesawir a bydd gobeithio yn cydnabod y gwaith pwysig a gyflawnir gan Lywodraeth Leol a'r pwysau y mae'n eu hwynebu.

9.2 Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cynnig dull cytbwys sy'n cymryd yr egwyddorion canlynol i ystyriaeth:

- Anelu i gydnabod ac unioni pwysau o fewn blwyddyn a rhagweld pwysau gwasanaeth gymaint â phosibl er mwyn datblygu cadernid.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu herio i gyflawni gwasanaethau effeithiol, ond i geisio lleihau effaith cynigion ar ddefnyddwyr gwasanaeth a staff.
- Cadw cynnydd yn Nhreth y Cyngor mor isel ag sy'n ymarferol bosibl.
- Cyfyngu'r defnydd o Arian sydd ond yn gohirio'r angen i nodi arbedion.
- Cynnal cyllid ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol.

9.5 Oherwydd y dyddiad hwyr iawn ar gyfer y Setliad Terfynol, argymhellir bod y Cabinet a'r Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil. Mae LIC wedi nodi ei bod yn annhebygol y bydd yna unrhyw newidiadau sylweddol, fodd bynnag mae'n synhwyrol cytuno ar gynllun wrth gefn ymlaen llaw.

9.4 Os nad yw'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu derbyn, mae'n rhaid cyflwyno cynigion eraill i gydbwyso'r gyllideb.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd sydd wedi ei gynllunio a sy'n amserol. Byddai methu â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posibl eraill, yn peryglu cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2021/22.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 1
FINAL PROPOSALS 2021/22**

	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2022/23 £'000	2023/24 £'000
Funding				
Revenue Support Grant & NNDR (RSG)	151,932	158,632	158,632	158,632
Council Tax	55,685	58,187	60,948	63,707
SSA / Budget Requirement	207,616	216,818	219,579	222,339
Use of Balances	685			
Total Funding	208,301	216,818	219,579	222,339
Expenditure				
Base Budget	198,538	208,302	216,819	220,906
Inflation / Pressures:				
Pay	1,124	870	1,019	1,019
Price - targeted	100	100	100	100
Price - NSI Energy	150	150	150	150
CTRS	350	350	350	350
Fire Authority Charge	93	162	100	100
Income Inflation		(462)	(500)	(500)
Social Services	2,600	2,397	500	500
Childrens Service	1,546	750		
Other Service Pressures		286		
Waste Pressures	1,400	250		
School Transport	600			
Schools Inflation	2,852	1,205	1,000	1,000
Schools Investment		1,353		
Schools Demography Adjustment	716	718	787	787
Covid / Brexit Contingency	358	683		
Other known items:				
Investment in Priorities 1	250		250	250
Investment in Priorities 2	250		250	250
Investment in Priorities 3	29	176	81	
NWEAB Growth Deal		64		
Carbon Zero Project		389		
Transfers into/out of Settlement	1,794	1,280		
EFFICIENCIES / SAVINGS:				
Pensions Triennial Review	(2,000)			
Service Efficiencies - BAU	(1,756)	(690)		
Service Savings		(781)		
Schools Efficiency Target	(692)	(733)		
Total Expenditure	208,302	216,819	220,906	224,912
Funding Shortfall / (Available)	0	0	1,327	2,573

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Council Tax Sensitivity Analysis

2021/22	Increas %	Increase in Band D £	Proposed Band D £	Total Funding £000	Inc/Dec in Funding £000
	0.00%	0.00	1,384.16	56,054	0
	0.50%	6.92	1,391.08	56,335	281
	1.00%	13.84	1,398.00	56,615	561
	1.50%	20.76	1,404.92	56,896	842
	2.00%	27.68	1,411.84	57,177	1,122
	2.25%	31.14	1,415.30	57,317	1,263
	2.50%	34.60	1,418.76	57,457	1,403
	2.75%	38.06	1,422.22	57,597	1,543
	3.00%	41.52	1,425.68	57,738	1,683
	3.25%	44.99	1,429.15	57,878	1,824
	3.50%	48.45	1,432.61	58,018	1,964
	3.75%	51.91	1,436.07	58,159	2,104
Current Recommendation	3.80%	52.60	1,436.76	58,187	2,132
	4.00%	55.37	1,439.53	58,299	2,245
2020/21 Increase	4.30%	59.52	1,443.68	58,467	2,413
	4.50%	62.29	1,446.45	58,579	2,525
	4.80%	66.44	1,450.60	58,748	2,693
	4.95%	68.52	1,452.68	58,832	2,778
	5.00%	69.21	1,453.37	58,860	2,806
	5.25%	72.67	1,456.83	59,000	2,946
	5.50%	76.13	1,460.29	59,141	3,086
	5.75%	79.59	1,463.75	59,281	3,227
	6.00%	83.05	1,467.21	59,421	3,367
	6.25%	86.51	1,470.67	59,561	3,507
2019/20 Increase	6.35%	87.89	1,472.05	59,618	3,563
	6.40%	88.59	1,472.75	59,646	3,591
	6.50%	89.97	1,474.13	59,702	3,647

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Council Tax 2021/22

Well-being Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	879
Brief description:	It is a proposed rise in Council Tax of 3.8% in order to support the 2021/22 budget.
Date Completed:	01/01/2021 15:18:41 Version: 1
Completed by:	Steve Gadd
Responsible Service:	Finance
Localities affected by the proposal:	Whole County,
Who will be affected by the proposal?	Council Tax payers in Denbighshire
Was this impact assessment completed as a group?	Yes

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

★ ★ ★ ★ (3 out of 4 stars) Actual score : 24 / 30.

Implications of the score

Whilst the Council Tax rise will increase the amount paid, it also allows the council to increase funding to provision in key areas such as social care and schools and maintain service levels broadly (there are some reductions but are not significant in terms of the size entire package) throughout other areas during 2021/22

Summary of impact

Well-being Goals

A prosperous Denbighshire

A resilient Denbighshire

A healthier Denbighshire

A more equal Denbighshire

A Denbighshire of cohesive communities

A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

A globally responsible Denbighshire

Neutral

Positive

Neutral

Neutral

Positive

Neutral

Neutral



Main conclusions

The impacts are broadly neutral. This is because the Council Tax rise proposed supports a budget that protects existing service levels and increases investment in social care, schools and in other priorities. Clearly the impact is the increased tax paid by residents. The main mitigation is that around 25% of tax payers receive financial support through the Council Tax Reduction Scheme. However, it is recognised that for some taxpayers, the proposed rise will create an additional financial burden, particularly for those with relatively fixed incomes or little disposable income.

Evidence to support the Well-being Impact Assessment

- We have consulted published research or guides that inform us about the likely impact of the proposal
- We have involved an expert / consulted a group who represent those who may affected by the proposal
- We have engaged with people who will be affected by the proposal

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact	Neutral
Justification for impact	Whilst the Council Tax rise will increase the amount paid, it also allows the Council to increase funding to provision in key areas such as social care, waste services, children's services and schools and maintain service levels broadly. It also allows funding of a number of corporate priorities including Carbon Neutral targets, Flood Defence and coping with Ash die-back.
